**Atodiad A**

**Gweithredu**
**Mesur Iechyd Meddwl Cymru mewn perthynas â Phlant a Phobl Ifanc;**
**Papur sefyllfa Sir Ddinbych**
**24 Mai 2013**

Ar gyfer Grŵp Rhaglen Glinigol Plant a Phobl Ifanc, penodwyd dau arweinydd i fod yn gyfrifol am weithredu'r Mesur. Yr Arweinydd ar gyfer Rhan 1 o'r Mesur Iechyd Meddwl yw Sara Hammond Rowley Seicolegydd Clinigol Ymgynghorol a Phennaeth Ymyrraeth Gynnar ac Atal CAMHS a'r Arweinydd ar gyfer Rhan 2 a Rhan 3 o'r Mesur Iechyd Meddwl yw Patrick Howells - Rheolwr Gwasanaeth CAMHS (Dwyrain) ond ar hyn o bryd mae hyn dan ofal Irfon Williams - Rheolwr Gwasanaeth CAMHS (Gorllewin).

Mae'r gwaith hyd yma wedi'i wneud gyda Phennaeth Gwasanaethau Plant Sir Dinbych Leighton Rees, i ddatblygu a chytuno â'r fodel ranbarthol. Y prif faterion ynglŷn â gweithredu'r model ar gyfer plant a phobl ifanc yn Sir Ddinbych yw;

- Llwyddo i gyrraedd y targed blaenorol ar gyfer amser aros (16 wythnos) a nodir yn Fframwaith Ansawdd Blynyddol GIG Cymru erbyn diwedd Mawrth 2013
- Gwaith helaeth gan 'Gweithrediadau' i sicrhau bod dulliau adrodd cadarn o fewn isadeiledd TG presennol ar waith ar gyfer adrodd i Lywodraeth Cymru
- Gweithredu camau cychwynnol y model sy'n cynnwys integreiddio swyddogaethau - ymyrraeth gynnar ac atal yn cynnwys ymgynghoriadau proffesiynol a hyfforddiant, a thrafodaethau cychwynnol gydag apwyntiadau asesu a ddewisir ac ymyriadau byr
- Ddim mewn meddygfeydd eto ond wedi cysylltu â sawl ysgol a lleoliadau eraill - fodd bynnag mae angen trafod gydag awdurdod lleol Sir Ddinbych sut gallwn gysylltu'n effeithiol ag Addysg ar gyfer cynllunio amlasiantaeth a darparu ymyriadau cyffredinol a rhai a dargedir, bydd hyn yn cael ei ddatblygu
- Y camau nesaf yw gweithredu model Rhan 1 yn llawn ac yna rhoi sylw hefyd i hyfforddiant ar gyfer Cynllunio Gofal a Thriniaeth Rhan 2 gyda Gwasanaethau Cymdeithasol Plant ac Addysg - arweinydd newydd ar gyfer rhan 2 a 3 oherwydd salwch tymor hir, felly peth oedi
- Cydweithredu Rhanbarthol a Chydweithredu Cenedlaethol ar y gweill felly bydd cysondeb rhanbarthol a chenedlaethol yn gwella yn cynnwys archwiliad trwy Gymru o'r modd y gweithredir rhan 2
- Yn lleol - Bydd CAMHS yn cysylltu â chyfeirwyr yn y 3 mis nesaf i'w hysbysu ynghylch llwybr mynediad newydd a meini prawf, yna gweithredir y model yn llawn a bydd yn cynnwys trafod gyda phartneriaid

Gellir darparu papur manylach ynghylch gweithredu'r Mesur Iechyd Meddwl ar gyfer Plant a Phobl Ifanc yng nghyfarfod nesaf y pwyllgor.

Caroline Winstone 24 Mai 2013